| PENNAWD RHEOLI | | | |
|---|---|---|---|
| Adran | Swyddfa’r Is-ganghellor | | |
| Awdur | Pennaeth AD - Gweithrediadau a Systemau | | |
| Awdurdodwyd gan: | VCB | | |
| Gweithredir gan: | AD a Gwasanaethau Myfyrwyr a Bywyd Campws | | |
| Cyfeirnod y Polisi: | POVCEX2223055 | | |
| Yn disodli: | POPRVCEX1920042 | | |
| Rhif y fersiwn: | 1 | Pwyllgor Cymeradwyo: | VCB<br>Pwyll. P&C |
| Dyddiad cymeradwyo: | 22.09.22<br>27.10.22 | Rhif cofnod: | 22.07.08<br>22.12 |
| Statws: | Cymeradwywyd | Dyddiad gweithredu: | Hydref 22 |
| Cyfnod cymeradwyo: | 3 blynedd | Dyddiad adolygu: | Hydref 25 |

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi cynnal prawf asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | ☐ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn *(dileer fel y bo’n briodol)* ar y Gymraeg a’r ddarpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol. | ☐ |

# Polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

## DATGANIAD O FWRIAD

1.1 Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn credu ei bod hi’n annerbyniol i blentyn neu unigolyn ifanc[1] brofi camdriniaeth o unrhyw fath, ac yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu lles plant yng nghymuned y Brifysgol a’r rhai sy’n dod i gysylltiad â gweithgareddau’r Brifysgol. (Dylid nodi hefyd fod y polisi a’r gweithdrefnau cysylltiedig yn berthnasol i Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed[2].) Er mwyn gwneud hynny, bydd yn sicrhau:

- Bod pob aelod staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau o ran diogelu.
- Bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn mynd i’r afael

[1] Defnyddir y geiriau plentyn/plant drwy’r polisi cyfan hwn. Mae’r rhain yn cyfeirio at blant, pobl ifanc (sydd fel arfer o dan 18).

[2] Mae oedolion agored i niwed yn cynnwys unigolion sy’n derbyn gofal, y rheiny mewn gofal cymdeithasol neu sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar, ynghyd â’r rheiny sydd yn y ddalfa neu ar brawf, sydd o dan 25 oed.

â phryderon, honiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth neu fod yn agored i radicaleiddio.

- Bod hyfforddiant neu ganllawiau yn cael eu trefnu ar gyfer pob aelod staff o ran diogelu, gan gynnwys canfod camdriniaeth, esgeulustod a bod yn agored i radicaleiddio.
- Gwiriadau priodol mewn perthynas ag aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant dan 18 oed ac oedolion agored i niwed

1.2 Dull diogelu sy'n anelu at leihau risg a hyrwyddo diogelwch ledled y Brifysgol.

1.3 Bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn parhau i fodloni disgwyliadau canllawiau a deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys; Canllawiau'r Ddyletswydd Prevent ar gyfer Cymru a Lloegr (2015); Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015); lle bo'n briodol, cydweithio â chyrff sydd â dyletswyddau dan Ddeddf Plant 1989, 2004 a 2006; Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006.

1.4 Rydym yn cydnabod fod gennym gyfrifoldeb sylfaenol i ddarparu amgylchedd ble gall unigolion o bob oed, p'un a ydynt yn staff, myfyrwyr, prentisiaid neu ymwelwyr, weithio, dysgu a datblygu mewn amgylchedd diogel.

1.5 Mae'r polisi hwn yn mynd y tu hwnt i ymrwymiadau cyfreithiol sylfaenol y Brifysgol ac yn ceisio adlewyrchu canllawiau diogelu cyffredinol ac arfer da yng nghyswllt y sector addysg uwch.

## CWMPAS

2.1 Mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi'r trefniadau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu plant (h.y. o dan 18 oed) a/neu oedolion agored i niwed (sy'n cael eu diffinio fel "oedolion agored i niwed" yn unol â deddfwriaeth sydd ar waith yn y DU ar hyn o bryd) o fewn cymuned y Brifysgol.

2.2 Mae dull y Brifysgol yn adlewyrchu'r cyd-destun cyfreithiol a hefyd yn ystyried canllawiau perthnasol ac arfer da yng nghyswllt y sector addysg. Mae'r materion a'r gweithgareddau canlynol o fewn cwmpas y polisi hwn:

2.2.1 Gweithgareddau allgymorth a recriwtio sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed

2.2.2 Lleoliadau gwaith sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored

i niwed (gan gynnwys mewn Is-gyfarwyddiaethau / adrannau gweithredol) sy'n cynnwys lleoliadau Turing a Taith

2.2.3 Derbyn myfyrwyr dan 18 ar adeg ymrestru

2.2.4 Llety'r brifysgol i fyfyrwyr o dan 18 oed ar ddyddiad symud i'r llety

2.2.5 Cymorth a gwasanaethau i fyfyrwyr

2.2.6 Cyfleusterau chwaraeon

2.2.7 Gweithgareddau mewn Ysgolion

2.2.8 Ysgolheigion Bach

2.2.9 Xplore!

2.2.10 Materion o ran cyflogaeth staff

Ategir polisi'r Brifysgol gan gyfres o weithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â'r gweithgareddau uchod.

2.3 Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar ein gweithdrefnau mewnol, ond yn cydnabod y gallai fod yn briodol mewn amgylchiadau penodol i adrodd am bryderon diogelu ynghylch plant neu Oedolion mewn Perygl i ystod o asiantaethau allanol.

2.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall pobl ifanc fod mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i syniadaethau eithafol, a all arwain at risg o radicaleiddio. Yng nghyd-destun Polisi Diogelu'r Brifysgol, ystyrir bod y risg o gael eu tynnu i mewn i syniadaethau eithafol a radicaleiddio yn bryder diogelu arwyddocaol, sydd yr un mor sylweddol â mathau eraill o gamdriniaeth a cham-drin plant ac Oedolion Agored i Niwed. Byddai pryder o ran diogelu o'r natur hwn yn berthnasol i gylch gwaith Prevent hefyd, a byddai'r ddau'n cael eu hadrodd trwy ffurflen atgyfeirio Diogelu a Prevent

## NODI PRYDERON DIOGELU

Egwyddorion Allweddol:

3.0 Bydd y Brifysgol yn ystyried pob pryder o ran diogelu, gan gynnwys amheuon a honiadau o gamfanteisio, niwed neu gam-drin (gan gynnwys radicaleiddio), yn o ddifrif, a bydd yn adrodd am bryderon yn gyflym.

3.1 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod pryderon ar waith i wirio addasrwydd staff a myfyrwyr y mae eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn cynnwys cyswllt rheolaidd neu oruchwylio plant neu oedolion a allai fod yn agored i niwed.

3.2 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cynnal o ran staff a myfyrwyr, gan gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol a gwiriadau eraill lle bo'n briodol. Nodir manylion am y prosesau a'r gwiriadau hyn yng Ngweithdrefn Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y Brifysgol a'r Datganiad Polisi ar gyfer Recriwtio a Chyflogi Cyn-droseddwyr.

3.3 Bydd atgyfeiriadau diogelu yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod perthnasol ar sail risg sydd wedi'i nodi a'i hystyried.

3.4 Bydd staff y Brifysgol sy'n delio â myfyrwyr neu aelodau staff sy'n destun pryderon diogelu yn ystyried pa gymorth a all gael ei gynnig iddynt o fewn y Brifysgol (e.e. yr Adran AD i staff a Myfyrwyr a Bywyd Campws i fyfyrwyr) ac yn allanol (e.e. atgyfeirio at feddygon teulu lleol, gwasanaethau iechyd meddwl neu Iechyd Galwedigaethol (os ydynt yn aelod staff)).

3.5 Rhaid i ymchwil sy'n cynnwys plant neu oedolion agored i niwed gydymffurfio â Gweithdrefn Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Bydd gwiriadau DBS yn cael eu cynnal yng nghyswllt unigolion sy'n ymwneud ag ymchwil o'r fath lle mae'r gyfraith yn caniatáu. Gellid ceisio canllawiau ar hyn gan Gadeirydd perthnasol y Pwyllgor Moeseg Ymchwil perthnasol.

3.6 Nid yw'n bosibl gwarantu cyfrinachedd pan fo pryder diogelu yn cael ei adrodd gan fod gan y Brifysgol ddyletswydd gofal tuag at staff, myfyrwyr neu ymwelwyr, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Brifysgol weithredu wrth dderbyn adroddiad am bryder o ran diogelu, a allai arwain at yr un peth yn cael ei adrodd i drydydd parti allanol. Fodd bynnag, bydd unrhyw adroddiadau'n cael eu trin mewn modd sensitif a dim ond yn cael eu datgelu i'r bobl sydd angen cael gwybod am ddigwyddiad neu bryder, p'un a yw hynny'n fewnol neu'n allanol i'r Brifysgol.

## BETH YW PRYDER O RAN DIOGELU?

Mae enghreifftiau o bryderon o ran diogelu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

4.0 Plentyn neu oedolyn yn honni camdriniaeth, niwed neu ymddygiad amhriodol arall.

4.1 Myfyriwr neu aelod staff sy'n datgelu gwybodaeth amdanynt hwy eu hunain neu eraill, sy'n codi pryderon posibl y gallai cyflawnwr posibl fod yn niweidio

neu'n cam-drin unigolion agored i niwed neu blant sydd ynghlwm wrth weithgareddau'r Brifysgol.

4.2 Ceir amheuon neu bethau sy'n awgrymu fod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei niweidio, neu mewn perygl o gamfanteisio, niwed neu gamdriniaeth (gan gynnwys radicaleiddio). Gall dangosyddion camdriniaeth neu niwed neu risg o gamdriniaeth neu niwed neu radicaleiddio fod yn anodd eu canfod, ac nid cyfrifoldeb aelodau staff yw penderfynu a yw plentyn neu oedolyn wedi cael ei gam-drin neu wedi bod yn agored i gamdriniaeth neu niwed, dim ond codi pryderon a allai fod ganddynt.

4.3 Ceir newidiadau amlwg yn edrychiad neu ymddygiad plentyn neu oedolyn a allai fod ynghlwm wrth gamfanteisio, niwed neu gamdriniaeth (gan gynnwys radicaleiddio).

4.4 Mae pryder yn cael ei godi fod unigolyn yn cyflwyno risg o gamdriniaeth neu niwed tuag at blentyn neu oedolyn yng nghyswllt, er enghraifft, ei h/euogfarnau troseddol, neu lawrlwytho, meddiannu neu ddosbarthu lluniau amhriodol neu ddeunyddiau eithafol.

4.5 Mae pryderon yn codi fod myfyriwr neu aelod o staff yn agored i radicaleiddio, ac mae risg amlwg o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth.

## CADW GWYBODAETH

5.0 Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag egwyddorion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 o ran y modd y mae'n cadw ac yn gwaredu gwybodaeth bersonol.

5.1 Bydd cofnodion ysgrifenedig o unrhyw bryderon diogelu yn cael eu cadw am gyn hired ag sydd angen at y diben y cawsant eu caffael, neu fel sydd angen neu fel y caniateir yn ôl y gyfraith.

5.2 Bydd cofnodion ysgrifenedig o'r fath yn cael eu cadw'n ganolog ar system Target Connect ar gyfer achosion sy'n ymwneud â Myfyrwyr, a Case Management ar iTrent ar gyfer achosion sy'n ymwneud â Staff.

## HYFFORDDIANT

6.0 Bydd pob aelod staff a myfyrwyr, y mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n cynnwys cyswllt rheolaidd gyda phlant ac unigolion sydd o bosibl yn agored i niwed, yn cael hyfforddiant a chanllawiau sy'n briodol i'w rôl. Bydd pob aelod staff yn cael gwybod am y Polisi hwn a'r weithdrefn,

a'r canllawiau perthnasol.

## ADOLYGU'R POLISI A'R WEITHDREFN

7.0 Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adolygu'r ddogfen bolisi a'r weithdrefn hon bob tair blynedd, ac mae'n gyfrifol am ei goruchwylio a'i diweddaru yn enwedig o ran yr ymrwymiadau cyfreithiol a gofynion allanol eraill.

7.1 Mae materion cydraddoldeb wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi hwn, ac mae'r holl nodweddion gwarchodedig wedi'u hystyried yn rhan o'r Dadansoddiad Cydraddoldeb a gynhaliwyd.

7.2 Mae cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg yn y Brifysgol wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi hwn.

## CANLLAWIAU

8.1 Mae'r polisi hwn yn darparu'r fframwaith a'r cwmpas cyffredinol yng nghyswllt dull y Brifysgol o ddiogelu plant ac Oedolion Agored i Niwed. Mae'r dogfennau cysylltiedig yn nodi canllawiau manwl ynghylch rolau, prosesau a gweithdrefnau yng nghyswllt diogelu. Fodd bynnag, gall Arweinwyr Diogelu Dynodedig y Brifysgol roi cefnogaeth a chyngor penodol ynghylch gweithredu'r polisi hwn, a'r dyletswyddau sy'n berthnasol iddo.